Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
Single Unified Safeguarding Review

# BWLETIN MISOL

**TACHWEDD 25**

**Croeso** i rifyn mis Tachwedd o'r Bwletin Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.
Yr wythnos diwethaf, cynhaliwyd yr ail Ddigwyddiad Lledaenu Gwybodaeth ADUS yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd yng Nghaerdydd. Cawsom gyflwyniadau ar bynciau pwysig iawn gan siaradwyr gwych a bydd y Bwletin y mis hwn yn canolbwyntio ar y digwyddiad; y trafodaethau a gynhaliwyd, y dysgu a rannwyd ac adnoddau diddorol y cyfeiriwyd atynt yn ystod y diwrnod a all ein helpu i gryfhau ein hymateb diogelu ar y cyd.

## Agenda

Agorwyd y digwyddiad gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, Dawn Bowden, a phwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau bod y dysgu a'r argymhellion sy'n deillio o ADUSau yn cael eu lledaenu ledled Cymru a'u hymgorffori mewn ymarfer. Roedd yr agenda wedyn fel a ganlyn:

- Yr Athro Amanda Robinson: Dadansoddi Argymhellion yn Storfa Ddiogelu Cymru
- Ceri Fowler: Dysgu o Hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â Cham-drin Domestig
- Yr Athro Khatidja Chantler - Dysgu o Adolygiadau i Laddiadau Oedolion mewn Teulu
- Julian Hendy: Dysgu o Laddiadau Iechyd Meddwl yng Nghymru
- Sesiynau trafod yn y prynhawn
- Kirsty McDowell a Sue Hurley: Dysgu o Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol Cwm Taf

## Storfa Ddiogelu Cymru

Cyflwynodd yr Athro Robinson ddadansoddiad o argymhellion yn Storfa Ddiogelu Cymru, gan dynnu sylw at ba fathau o argymhellion sydd fwyaf tebygol o gael eu gwneud ar gyfer gwahanol asiantaethau. Roedd yn ddiddorol nodi mai'r asiantaeth a oedd â'r nifer fwyaf o argymhellion a wnaed ar ei chyfer oedd, mewn gwirionedd, 'dim asiantaeth wedi'i nodi' - rhywbeth felly i'r rhai sy'n gwneud argymhellion ADUSau gnoi cil arno. Yn ogystal, soniodd yr Athro Robinson am ymchwil ddiweddar ar arferion gorau a nodwyd mewn adolygiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Storfa.

## Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol

Rhannodd Kirsty McDowell a Sue Hurley yr hyn a ddysgwyd o ran ymarfer a'r broses yn dilyn Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol Cwm Taf Morgannwg. Roedd yn dda cael clywed yn uniongyrchol ganddynt am eu profiadau fel Adolygydd a Chadeirydd yr adolygiad cymhleth hwn. Mae'r adroddiad hwn, a'r adolygiadau lladdiadau ag arf ymosodol eraill sydd wedi'u cyhoeddi gan y Swyddfa Gartref hyd yn hyn, ar gael yma

## Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio

Rhoddodd Ceri Fowler, Arweinydd Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio GIG Cymru, gyflwyniad ar y cysylltiadau rhwng cam-drin domestig a hunanladdiad, dangosyddion risg a goblygiadau o ran ymarfer, yn ogystal ag argymhellion ynghylch sut y gallai Cymru fynd i'r afael â'r mater. Mae e-fodiwl Ymwybyddiaeth o Hunanladdiad gyda mynediad i bawb ar gael yma. Rhannodd Ceri ddolenni hefyd at adnoddau o'r Gynhadledd Genedlaethol ar Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio 2025 a'r Gyfres o Weminarau 2025/2026. Mae'r rhain yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth ynghylch y cysylltiadau rhwng cam-drin domestig a hunanladdiad, ac atal hunanladdiad a hunan-niweidio yn fwy cyffredinol.

## Lladdiadau Oedolion mewn Teulu

Trafododd yr Athro Chantler ganfyddiadau Prosiect HALT - Homicide Abuse Learning Together - a oedd yn cynnwys dadansoddiad o 302 o adolygiadau lladdiadau domestig, gyda 66 ohonynt yn ymwneud â lladdiadau oedolion mewn teulu. Amlinellodd yr Athro Chantler y gwahaniaethau rhwng y math hwn o laddiad a lladdiadau gan bartneriaid agos, gan gynnwys proffiliau dioddefwyr a chyflawnwyr. Rhannodd hefyd negeseuon allweddol o ran yr angen i 'ganolbwyntio ar y teulu' yn y cyd-destunau hyn, yr angen i gynyddu ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol o gam-drin domestig i gynnwys camdriniaeth oedolion mewn teuluoedd, a'r ddynameg o ran gofal a nodwyd yn aml yn yr adolygiadau lladdiadau domestig a ystyriwyd ar gyfer yr ymchwil hon. Gellir cael gafael ar nifer o adnoddau y prosiect, gan gynnwys papur briffio ar laddiadau oedolion mewn teulu, yma.

**Hoffem glywed gennych chi!**

Rhannwch unrhyw arferion da a nodwyd yn ystod cynnal ADUSau â Hwb Cydgysylltu ADUS drwy anfon e-bost i ADUSCymru@llyw.cymru

## Adborth

**Ar y cyfan, beth oedd eich barn am y digwyddiad?**
Ardderchog - 87%
Da - 13%

**A fyddech chi'n dod i'r digwyddiad hwn eto yn y dyfodol?**
*Byddwn - 100%*

**Pa mor fodlon oeddech chi â'r siaradwyr/cyflwyniadau?**
Yn fodlon iawn - 90%
Bodlon - 10%

*'Diwrnod pwerus iawn. Diolch'*

*'Dw i'n dysgu bob tro dw i'n mynd i'r digwyddiadau hyn - amhrisiadwy'*

*'Diben a grŵp o siaradwyr ystyrlon iawn'*

*'Am ddigwyddiad hollol wych. Wedi'i drefnu'n dda, dw i ddim yn gallu'i ganmol ddigon'*

## Lladdiadau Iechyd Meddwl

Cyflwynodd Julian Hendy, y llofruddiwyd ei dad yn 2007 gan berson a oedd yn adnabyddus i wasanaethau iechyd meddwl, ganfyddiadau o laddiadau iechyd meddwl yng Nghymru a'r rôl bwysig y gall teuluoedd ei chwarae, ac y dylent ei chwarae, ym mhob math o adolygiad neu ymchwiliad. Gofynnodd Julian inni ystyried - a yw 'dysgu' yn ferf neu'n enw? Pwynt trafod da ar gyfer cyfarfodydd tîm efallai... Mae rhagor o wybodaeth am Hundred Families, sef yr elusen a sefydlwyd gan Julian yn sgil marwolaeth ei dad a'r heriau a wynebodd ef a'i deulu wrth geisio cael gafael ar wybodaeth, ar gael yma.